Cofnodion Cyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ddydd Mercher, 23ain Gorffennaf, 2008 am 7.30 p.m.

Presennol: Y Maer Cyng Edward Thomas, Dirprwy Faer Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Colin Jenkins, Cyng Julia Jones, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Christopher Parish, Cyng Dawn Wallace, Cyng Richard Wallace. Cyng Ros Bellamy, Cyng Fran Murphy.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)

Ymddiheuriadau : Cyng Roy Davies, Cyng Hugh Towns.

Materion yr Heddlu : Dywedodd PC Vernon Thomas bod 7 trosedd wedi'u cofnodi yn ystod y mis, 1 byrgleriaeth, 3 o feddu ar gyffuriau, 1 o aflonyddu, 1 o ddwyn o siop ac 1 o gymryd car heb ganiatâd. Hyd yn hyn mae chwech o'r rhain wedi'u canfod. Mae'r heddlu yn monitro'r sefyllfa yn ardal parcio Maes y Farchnad lle mae adroddiadau wedi'u derbyn o blant hŷn yn difrodi offer.

Cof 107 / Gorffennaf /08 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Dywedodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones bod CSC wedi gosod wyneb newydd ar y cyrtiau Tennis. Mae'r hen bafiliwn i'w ddymchwel yn y dyfodol agos. Mae'r Cyngor Sir yn cynnal trafodaethau ar wahân gyda Grŵp Morgans a Gwalia am wahanol adrannau o'r datblygiad.
Mewn perthynas â datblygu rhagor o gyfleusterau hamdden yn ysgol Tre-gib, bydd y Pennaeth yn cynnal cyfarfodydd rhwng yr 21-28ain Awst i drafod y man codi pwysau/ffitrwydd.
Mae arwyddion ffyrdd newydd wedi'u harchebu gan CSC yn lle'r rhai diffygiol. Hefyd dywedodd y Cynghorydd Sir Jones bod llythyron wedi'i hanfon allan at drigolion mewn perthynas ag ymgynghori ar fannau parcio i drigolion.

Cof 108 / Gorffennaf / 08 Cofnodion Blaenorol

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, Mehefin 25ain, 2008 fel cofnod cywir.
Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace.
Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, Gorffennaf 9fed 2008 fel cofnod cywir wedi cynnwys y newid canlynol :
Cof 98/ Gorffennaf / 08 newid Cyng Ros Bellamy a rhoi Cyng Colin Jenkins
Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o Gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, Gorffennaf 9fed, 2008 fel cofnod cywir a'u hargymell i'w derbyn. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng

Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 109 / Gorffennaf / 08 Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol

Parth: Cof 105/Gorffennaf/08. Cytunwyd na fydd y Cyngor yn gofyn i Argraffwyr Lewis i wneud ailargraffiad o Lyfryn Canmlwyddiant Parc Penlan oherwydd y costau uchel.

Parth: Cof 87/Mehefin/08. Llythyr at Mr John Owen yn gofyn am ganiatâd i dynnu'r iorwg sy'n tyfu ar Neuadd y Sir oddi yno a'i fod wedi'i ddosbarthu gan y Maer, sydd wedi trafod y broblem gyda Mr Owen. Mae Mr Owen wedi cytuno tynnu'r iorwg oddi yno.

Parth: Cof 99 / Gorffennaf / 08 dangoswyd gynllun drafft ar gyfer arwyddion i Neuadd y Sir i aelodau a gyflwynwyd gan Phil Wait. Cytunwyd y dylai'r Clerc gysylltu â'r Swyddog Cadwraeth am gyngor ar ddeunyddiau addas.

Parth: Cof 104 / Gorffennaf / 08. Cynigiodd y Cyng Ros Bellamy y dylai'r Cyngor Llawn dderbyn argymhelliad y Pwyllgor Cyllid i sicrhau bod swm o £2,000 ar gael ar gyfer y gost o ddarparu derbyniad ar gyfer Treialon Cŵn Defaid y Byd. Eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Cof 110/ Gorffennaf / 08 Gohebiaeth sydd angen ei ateb

1. Mr Jon Timothy, Adran Blaengynllunio CSC yn esbonio'r broses o enwebu safleoedd i'w cynnwys yn y CDLl. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu i wahodd Mr Timothy i gyfarfod Cynllunio mis Medi.
2. LlCC trwy law ymgynghoriad CSC mewn perthynas â Thai Fforddiadwy. Bydd y Cyng Colin Jenkins yn darllen ac yn ymateb i Adran Gynllunio CSC.
3. Clwb Rygbi Llandeilo – llythyr yn rhoi caniatâd i'r Cyngor gynnal arddangosfa Tân Gwyllt 2008 yng Nghae William.
4. Adolygiadau LlCC o'r trefniadau etholiadol – Nodwyd.

Cof 111 / Gorffennaf / 08 Gohebiaeth er gwybodaeth.

1. Cyng Charlotte Leadbeater - rhybudd o gyfarfod cyhoeddus ar Orffennaf y 29ain yn y Neuadd Ddinesig i drafod y Daith Gerdded er bydd Clefyd y Siwgr. Nodwyd.
2. Cylchgrawn Chwarae i Gymru. Nodwyd.

Cof 112 / Gorffennaf / 08 Materion Ariannol.

1. Anfonebau i'w Talu

South West Wales Media Ltd (hysbyseb yr ardd)	£ 291.40
Argraffwyr Lewis (rhaglenni Parc Penlan)	£ 1,420.00
Hugh Gwynne (clirio tir ym Mharc Penlan)	£ 117.50
D.Cledwyn Hughes (Archwilio talcen Neuadd y Sir)	£ 64.63
James Ash (adnewyddu'r celfi stryd)	£ 1,568.62
Ymddiriedolaeth y Neuadd Ddinesig (llogi'r Neuadd)	£ 55.00
Gwasanaethau Archwilio Mewnol Lyn Llewellyn	£ 165.00

2. Incwm a dderbyniwyd 21ain Gorffennaf 2008

HMRC – ffurflen TAW	£ 3,980.94
Archaeoleg Cambria (Rhent)	£ 3,140.75

3. Balansau'r Cyfrifon

LTC Cyfrif Cyfredol ar 21.7.08	£ 7,314.33
Sieciau sydd heb eu casglu	£ 230.54

Taliadau i gytuno arnynt £ 3,632.15

4. Materion Ariannol Eraill
   Dywedodd y Maer bod £5,000 wedi'i osod i'r naill ochr yn y gyllideb ar gyfer costau etholiadol ond nid oes ei angen oherwydd bod pob Cynghorydd wedi'i ddychwelyd yn ddiwrthwynebiad. Cynigiodd y Cyng Thomas bod £2,000 i'w osod yn erbyn y gost o adnewyddu cadwyn y maer. Roedd pawb o blaid.

Cof 113 / Gorffennaf / 08 Doedd yna ddim materion yn ymwneud â Chludiant a Phriffyrdd

Cof 114 / Gorffennaf / 08 Model y Côd Ymddygiad i Aelodau

Dosbarthodd y Clerc lyfryn, a gynhyrchwyd gan CSC, i gynorthwyo Cynghorwyr i ddeall y drefn. Gofynnwyd i bob Cynghorydd lanw cofrestr o ddiddordeb erbyn cyfarfod mis Medi. Cedwir y rhain yn hollol gyfrinachol gan y Clerc.

Cof 115 / Gorffennaf / 08 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Adroddodd Mr Davies fod Mr Hugh Gwynne wedi torri'r llwybrau troed am yr ail dro.

Cof 116 / Gorffennaf / 08 Adroddiad y Maer.

Dywedodd y Cyng Edward Thomas fod yr Efeilldref Le Conquet i ymweld â Llandeilo dros benwythnos y Pasg. Estynnodd longyfarchiadau'r Cyngor i'r Cyng Julia Jones am Ŵyl Cerdd a Blodau lwyddiannus iawn. Roedd wedi derbyn gohebiaeth gan CSC mewn perthynas â chost uchel adnewyddu gatiau Parc Penlan. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy, ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater y dylai'r Clerc ysgrifennu at Mr Richard Workman a gofyn am adroddiad technegol o'r gwaith sy'n rhaid ei wneud ar y gatiau, gan gynnwys manylion o'r costau cysylltiedig. Roedd pawb o blaid.

Cof 117 / Gorffennaf / 08 Adroddiadau Eraill

1) Adroddiad yr Is-grŵp Iechyd
   Cyflwynodd y Cyng Charlotte Leadbeater adroddiad cynhwysfawr o seminar gan y Bwrdd Iechyd Lleol a fynychwyd ganddi hi a'r Cyng Dawn Wallace. Y prif bwyslais oedd atal a lleihau trwy fentrau megis chwaraeon a gweithgareddau hamdden i bobl hŷn.
2) Is-grŵp Treialon Cŵn Defaid y Byd
   Rhoddodd y Maer adroddiad ar y trefniadau a gytunwyd arnynt hyd yn hyn. Mae Catrawd Cadbibau a Drymiau Cymru wedi'u llogi i arwain y pared. Mae'r Clerc wedi cysylltu â'r prif gwmnïau teledu yn eu gwahodd i ddarlledu'r achlysur. Mae'r Clerc wedi archebu baneri ar gyfer pob un o'r gwledydd sy'n cystadlu. Mae'r Neuadd Ddinesig wedi'i llogi ar gyfer y Derbyniad. Popty Bach y Wlad fydd yn gyfrifol am y lluniaeth. Dawnswyr Penrhyd a Chôr Mr Owain Gruffydd fydd yn darparu'r adloniant.
   Mae'r Swyddog Technegol wedi derbyn amcangyfrif o £250 i gontractwr osod baneri'r cenhedloedd sy'n cystadlu ar fracedi ar hyd Heol Rhosmaen. Cynigiodd y Cyng Ros Bellamy bod y Cyngor yn talu am wneud y gwaith hwn. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Chris Parish. Roedd pawb o blaid.
3) Is-grŵp Goleuadau Nadolig.
   Cynhaliwyd dau gyfarfod hyd yn hyn. Gan fod yna arian yn y gyllideb sydd heb ei wario, penderfynwyd y dylid prynu 6 golau newydd arall. Cytunwyd y byddai dyddiad newydd yn cael ei bennu i gynau'r goleuadau sef dydd Gwener, Tachwedd 21ain er mwyn cyd-fynd â'r Ŵyl o'r Synhwyrau.

Cof 118 / Gorffennaf /08 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd oherwydd amgylchiadau arbennig, a bod y Cadeirydd yn penderfynu ei fod yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Dywedodd y Cyng Julia Jones ei bod wedi derbyn sawl cwyn mewn perthynas â'r prinder arddangosfeydd blodau sydd o amgylch y Dref. Cytunwyd y dylid monitro'r sefyllfa yn ystod yr haf ac i'r Cyngor adolygu'r sefyllfa ym mis Medi.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30pm